



Papur Gwybodaeth Manwl

Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2018

Hydref 2018

Ar 29 Hydref 2018 cyflwynodd Philip Hammond AS, Canghellor y Trysorlys, ei gyllideb olaf reolaidd cyn y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Cyhoeddwyd y gyllideb yn dilyn addewid y Prif Weinidog yng nghynhadledd y Ceidwadwyr ym mis Hydref fod "llymder drosodd". Gwnaeth y gyllideb nifer o newidiadau gwariant yn y flwyddyn, ond yn bennaf mae'n gosod y cynlluniau gwariant o fis Ebrill 2019 gyda nifer o gyhoeddiadau pwysig yn cynnwys ar bolisi budd-daliadau, gwariant ar seilwaith a threthiant.

Mewn araith o bron 80 munud, adleisiodd y Canghellor sylwadau cynharach ei Brif Weinidog, gan awgrymu fod llymder "yn dod i ben". Rhoddodd cyllid cyhoeddus gwell na'r disgwyl £74bn ychwanegol i'r Canghellor gyda mwyaf hynny wedi ei ymrwmo i wariant ychwanegol ar y GIG (yn Lloegr), gwariant ar lesiant a newidiadau treth incwm. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi disgrifio'r pecyn cyhoeddiadau fel y gyllideb fwyaf hael ers sefydlu'r corff gwarchod cyllidol annibynnol yn 2010.

Mae penawdau allweddol y gyllideb yn cynnwys:

- £1bn o fuddsoddiad dros 5 mlynedd i helpu pontio i'r Credyd Cynhwysol
- £1.7bn ychwanegol o gyllid bob blwyddyn i gynyddu lwfansau gwaith yn y Credyd Cynhwysol
- Dileu'r Cap Benthycia Refeniw Tai ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru



- £550m ychwanegol o gyllid i Lywodraeth Cymru drwy gyllid canlyniadaol Barnett
- £120m o gyllid ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru
- £500m ychwanegol i baratoi am Brexit

Cyhoeddiadau cyllido manwl:

1. Credyd Cynhwysol

Gwnaeth y Canghellor ddau gyhoeddiad cyllid ar wahân ar y Credyd Cynhwysol; ymrwymiad o £1bn dros bum mlynedd o 'gefnogaeth ychwanegol ar gyfer pontio' ac ymrwymiad blynyddol o £1.7bn i gynyddu'r lwfans gwaith ar gyfer hawlwr Credyd Cynhwysol gan £1,000.

Mae Llyfr Coch Trysorlys Ei Mawrhydi - dogfennau cyllideb swyddogol y Llywodraeth - yn datgelu y bydd ffocws y gwariant hwn ar y newidiadau dilynol, y bu dyfalu am lawer ohonynt yn y cyfnod cyn y gyllideb.

- Dwy wythnos o daliadau ychwanegol ar gyfer rhai sy'n hawlio elfennau cysylltiedig ag incwm y Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) a Chymhorthdal Incwm (IS) wrth iddynt bontio i'r Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn ychwanegol at 'redeg ymlaen' Budd-dal Tai a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y llynedd a fydd yn weithredol o fis Gorffennaf 2020.
- Gostyngiad yn y gyfradd uchaf y gellir gwneud Didyniadau Trydydd Parti o ddyfarniad Credyd Cynhwysol o 40% i 30% o'r lwfans safonol, o fis Hydref 2019.
- Ymestyn y cyfnod y mae'r Llywodraeth yn adennill blaendaliadau a wnaed i hawlwr o 12 i 16 mis, o fis Hydref 2021.
- Ymestyn y cyfnod 12 mis o ras (y cyfnod cyn y daw'r Trothwy Isafswm Incwm i rym) ar gyfer hawlwr hunangyflogedig i ganiatai i'w busnes dyfu. Cyflwynir hyn ym mis Gorffennaf 2019 a chaiff ei weithredu'n llawn o fis Medi 2020.

Ynghyd â'r pecyn hwn o gyhoeddiadau, cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd arafu yn ymestyn y Credyd Cynhwysol fel y daw'r broses ymfudo a reolir yn awr i ben ym mis Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, mae'r gweithredu i fod i ddechrau ym mis Gorffennaf 2019 a bydd Esther McVey AS, Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau, yn cyflwyno rheoliadau yn ddiweddarach eleni ar gyfer y broses ymfudo a reolir. Disgwylir manylion pellach ar y cyhoeddiadau ar Ddodynadau Trydydd Parti, 'rhedeg ymlaen'



budd-daliadau gwaddol a'r amserlen newydd ar gyfer ymestyn ynghyd â'r rheoliadau.

Effaith

Y cyhoeddiad ar y cynnydd mewn lwfans gwaith yw'r cyhoeddiad mwyaf sylweddol yn y pecyn ar gyfer rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol, gyda'r Trysorlys yn amcangyfrif y bydd 2.4m o aelwydydd yn cadw £630 o incwm yn ychwanegol bob blwyddyn. Ynghyd â newidiadau yn y gyfradd tapr a gyhoeddwyd yn Hydref 2016, mae'r £1.7n o gyllid ychwanegol ar gyfer lwfansau gwaith yn cymryd lle mwy na thri-chwarter y toriadau o £3bn i'r Credyd Cynhwysol a gyhoeddwyd gan George Osborne yn 2015.

Mae dadansoddiad y Resolution Foundation islaw'n dangos y bydd yr effaith ar deuluoedd yn amrywio yn ôl maint ac amgylchiadau teuluoedd, ond y bydd y mwyafrif sy'n derbyn costau tai yn gweld cynnydd yn eu hincwm fel canlyniad i'r cyhoeddiad.

Table 1: The impact of changes to Universal Credit since Summer Budget 2015 for families working full time at the minimum wage, 2019-20

Impact of changes to Universal Credit for full-time minimum wage earner, 2019/20							
	March Budget 2015	Summer Budget 2015		Autumn Statement 2016	Autumn Budget 2018		Overall impact on income
	Work allowances	Work allowances	Income change	Income change: 63% taper	Work allowances	Income change	
Households without housing costs							
Single parent	£9,290	£5,030	-£2,770	+£200	£6,030	+£630	-£1,940
Couple with children	£6,780	£5,030	-£1,140	+£200	£6,030	+£630	-£310
No dependent children	£1,400	£0	-£910	+£300	£0	+£0	-£610
Limited capability for work	£8,180	£5,030	-£2,050	+£200	£6,030	+£630	-£1,220
Households with housing costs							
Single parent	£3,330	£2,430	-£580	+£250	£3,430	+£630	+£300
Couple with children	£2,810	£2,430	-£250	+£250	£3,430	+£630	+£630
No dependent children	£1,400	£0	-£910	+£300	£0	+£0	-£610
Limited capability for work	£2,430	£2,430	+£0	+£250	£3,430	+£630	+£880

Notes: Work allowances and minimum wage rates are updated to 2020 using OBR November 2016 economic assumptions

Notes: Assumes that work allowances in place before the Summer Budget 2015 are updated by CPI in 2018-19 and 2019-20. Estimates are rounded to nearest £10.

Source: RF analysis of DWP Benefit Rates 2018-19 and OBR, various

Croesewir y cyhoeddiadau pellach ar y Credyd Cynhwysol, ynghyd â'r £1bn o fuddsoddiad dros bum mlynedd. Fodd bynnag, mae pryderon na fydd 'rhedeg ymlaen' ychwanegol ar gyfer budd-daliadau ESA, JSA ac IS yn weithredol tan fis Gorffennaf 2020, ac y bydd hawlwyd sy'n pontio i'r Credyd Cynhwysol un ai oherwydd newid mewn amgylchiadau neu drwy' broses ymfudo a reolir cyn hynny yn colli incwm hanfodol.



Bydd ymestyn y cyfnod ymestyn ar gyfer ymfudo a reolir yn ein galluogi i barhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ac Aelodau Seneddol o bob plaid i wella'r broses a mynd i'r afael â gwallau dylunio a gweinyddol, a sicrhau fod y rheoliadau a osodir cyn y Senedd yn addas i'r diben.

2. Dileu'r cap Cyfrif Refeniw Tai ar fenthyca awdurdodau lleol

Yn dilyn cyhoeddiad annisgwyl y Prif Weinidog yng Nghynhadledd y Ceidwadwyr ym mis Hydref, cadarnhaodd y Canghellor y caiff y cap ar y Cyfrif Refeniw Tai sy'n rheoli benthyca awdurdodau lleol ar gyfer adeiladu tai ei ddiddymu fel ar 29 Hydref 2018.

Mae amcangyfrifon Llywodraeth y Deyrnas Unedig am wariant fel canlyniad i'r newid hwn yn gynnwl yn 2018-19 ar tua £95m, ond mae hyn yn cynyddu'n sylweddol erbyn 2022/23 gyda chyfanswm gwariant o fwy na £1.2bn, fel y nodir yn y tabl islaw.

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24
Gwariant	£95m	£385m	£850m	£855m	£1.235bn	£1.235bn

Ffynhonnell: Trysorlys Ei Mawrhydi

Cadarnhaodd y Llyfr Coch hefyd y bydd y newid yn weithredol yng Nghymru yn ogystal â Lloegr a bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar unwaith i godi'r cap yng Nghymru.

Effaith

Croesewir y cadarnhad y bydd y newid, a gyhoeddwyd yn flaenorol gan y Prif Weinidog, yn weithredol yng Nghymru. Er ein bod yn disgwyl manylion pellach am ddileu'r cap yng Nghymru, mae'n annhebyg o ddatgloi capasiti ariannol sylweddol i gefnogi adeiladu tai.

Mae cymdeithasau tai mewn lle da i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a chredwn fod gan y cyhoeddiad hwn botensial i greu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein gwaith ar yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yng Nghymru a ddynododd nifer o ffyrdd y gallai cymdeithasau tai gydweithio gydag awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Panel Adolygu, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddeall yn llawn beth yw effaith y



cyhoeddiad hwn, ac i sicrhau bod cymdiethasau tai yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau am ddefnydd y pwerau hyn yn y dyfodol.

3. Bargeinion Twf Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru

Cadarnhaodd y Canghellor gyllid ar gyfer nifer o Fargeinion Dinas a Twf newydd ym Melfast, Stirling, Tayside a Clackmannanshire, gyda £120m o gyllid wedi'i ymrwymo i Fargen Twf Gogledd Cymru.

Disgwylir gwybodaeth bellach ar y cyllid yn nes ymlaen yn y flwyddyn ond mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi croesawu'r cyllid a dweud y bydd yn rhoi sylfaen gref ar gyfer denu mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

Cadarnhaodd y Canghellor hefyd y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwahodd partneriaid i gyflwyno cynigion ar gyfer Bargein Twf Canolbarth Cymru.

Effaith

Buom yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai sy'n ymwneud â thrafodaethau am Fargen Twf Gogledd Cymru a chroesewir cadarnhad o'r cyllid. Dywedodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru eu bod yn disgwyl rhoi tîm neilltuol ar waith yn canolbwyntio ar ddarparu'r prosiectau blaenoriaeth a negodi'r fargen derfynol cyn cyhoeddiad yn 2019.

4. Cyllid Llywodraeth Cymru

Bydd nifer o ymrwymadau gwariant i Loegr yn unig o fewn y Gyllideb, yn cynnwys £8.4bn ar gyfer y GIG a £650m i lywodraeth leol, yn gweld cynnydd o tua £550m yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gyda £115.7m yn ychwanegol yn 2019/19 a £425.9m yn 2019/2020.

Ymhellach i hyn, mae'r Llyfr Coch hefyd yn cyhoeddi adolygiad o bwerau benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru gap o £1bn ar ei benthyca ond dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd yn ystyried p'un ai a ddylid cynyddu'r uchafswm gan £300m i gefnogi adeiladu ffordd liniaru'r M4.



Effaith

Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cyfrif am fwyafrif y cyllid canlyniadol ychwanegol yn nrafft gyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, gyda'r gwariant ychwanegol ar y GIG yn Lloegr wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin gyda disgwyl y byddai'n cael effaith sylweddol ar gyllid canlyniadol.

Gyda thoriadau sylweddol i setliad cyllid llywodraeth leol wedi'u cyhoeddi yr wythnos ddiwethaf, dywedodd yr Ysgrifennydd Cyllid Mark Drakeford AS eisoes mai awdurdodau lleol fydd y 'cyntaf yn y rhes' am unrhyw gyllid referniw ychwanegol.

Fodd bynnag, gyda disgwyl i lefelau Grant Tai Cymdeithasol ostwng tuag at ddiwedd tymor hwn y Cynulliad, byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddefnyddio cyllid cyfalaf ychwanegol i gyllido ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o gartrefi yn ystod tymor hwn y Cynulliad.

Mae'r adolygiad o bwerau benthyca, a seiliwyd ar adeiladu ffordd liniaru'r M4, yn debygol o ychwanegu at y gynnen mewn dadl wleidyddol sydd eisoes yn boeth. Beirniadodd Mark Drakeford y penderfyniad gan ddweud mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol yw penderfynu sut i wario unrhyw fenthyca ychwanegol.

5. Tai a Gofal Cymdeithasol (Lloegr yn unig)

Gwnaeth y Canghellor nifer o gyhoeddiadau i Loegr yn unig ar boilisii tai, a all fod o ddiddordeb i aelodau, yn cynnwys:

- £675m i gefnogi trawsnewid cynaliadwy ar y stryd fawr, ynghyd â diwygiadau cynllunio, i ganiatau trosi mwy o adeiladau masnachol yn rhai preswyl.
- Cadarnhau 9 partneriaeth strategol newydd rhwng Homes England a chymdeithasau tai i ddarparu 13,000 o gartrefi newydd.
- £500m o fuddsoddiad yn y Gronfa Seilwaith Tai, yn cynnwys £291m i ddatgloi 18,000 o gartrefi yn Nwyrain Llundain drwy fuddsoddiad yn rheilffordd ysgafn Docklands.
- Ymestyn rhyddhad i brynwyr tro cyntaf ar Dreth Dir y Dreth Stamp i'r rhai sy'n brynu annedd rhan-berchnogaeth yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff y newid hwn hefyd ei ôl-ddyddio i 22 Tachwedd 2017.
- £410m ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion a phlant yn Lloegr ar gyfer 2019/20.